COFNODION CYFARFOD CYFFREDIN CYNGOR TREF MACHYNLLETH
Wedi ei cynnal yn Y Plas ar Ddydd Llun Chwefror 1af 2010

Yn Bresennol: Cyng. D W Davies, B. Dunn; G Baldwin; D Lewis; E Hughes; K Hubbard; M Williams; G Jenkins; C Foster

Hefyd yn Bresennol: M Biffin - Secretary

Cyn cychwyn y Cyfarfod gofynnodd Melanie Biffin Ysgifennyddes ganiatâd y Cyngo4r I sefyll I mewn ar ran y Clerc oherwydd bod Mr Parson's yn dal I ffwrdd ar ôl bod yn yr Ysbyty. **Cytunwyd –**cafodd y Cyfarfod ei gadeirio gan Cyng E Hughes y Dirprwy Faer

5442 CT 01.02.10 **Ymddiheuriadau**

- Cyng S Rowlands; S Nicholas; G Davies; a'r Clerc Mr J Parsons

5443 CT 01.02.10 **Cyflwyniad**

Rhoddwyd gyflwyniad gan Mr Henk Jan Kuipers o Adran Tai rhesymol ei pris.Dywedodd Mr Kuipers ei fod yn atebol am Ardal Sir Drefaldwyn ac yn cael ei dalu gan WAG ac yn gyflogedig gan CSP. – mae dynwaredol yn cymeryd lle yn Ceinws lle mae angen amrywiaeth o dai – meant yn ceisio rhoddi mewn lle polisi gosod fel byddai cytundeb polisi gosod yn safonol, mi fyddai yn rhoddi blaenoriaeth yn ô lei anghenion I fobl lleol – mae angen cefnogaeth y Gymuned l'r cynllun wiethio – Dywedodd Mr Kuipers ei bod o hyd yn edrych am dîr rhesymol a mi fyddai angen ariannu l gadw'r rhenti yn isel – Yr oedd Cyng Foster yn teimlo fod hyn yn syniad da. Dywedodd Cyng Jenkins bod angen pendant yn Machynlleth ar amgylchoedd a bod cael TY Cyngor yn anodd l'w gael heb gyfarfod y meini prawf – Gofynnodd Cyng Williams os oedd tîr wedi ei nodi – Dywedodd Mr Kuipers bod dim ymchwil wedi cymeryd lle yn Machynlleth hyd yn hyn oherwydd ei fod eisiau siarad gyda Cyngor y Dref yn gyntaf. Mae Comisiwn Coedwigoedd yn cyflenwi y tîr yn Ceinws I Tai Gwalia – mi fyddai'r tâi l'w cael am tua 70% o werth y farchnad ond oedd yn amrywio a bod llawer o reolau. – Cytunodd Cyng Hubbard gyda'r sylwadau a roddwyd gan Cyng Jenkins – Dywedodd Cyng Lewis ei bod yn gweithio gyda llawer o bobl ifanc ac yr oeddynt I gyd yn dweud mor anodd oedd I ddod o hyd I dai rhesymol – Dywedodd Cyng Baldwin bod bobl hun hefyd angen tai a ni ddylsem ei anghofio. Gofynnodd Cyng Baldwin hefyd os oedd CSP yn meddwl defnyddio tai gwag – Dywedodd Mr Kuipers pe tai rhywun yn gwybod am dai gwag bod gan "Shelter" Cymru wé lle fedr rhoddi gwybodaeth iddynt am y tai a mi wnewn nhw gysylltu gyda Cyngor Sir Powys. –Dywedodd Mr Kuipers bod y Cymdeithasau Tai yn teimlo ei fod yn rhatach I adeiladu or newydd na ailwampio hen adeladau. Gofynnodd Cyng Dunn beth oedd agwedd CSP at dai gwag – Dywedodd Mr Kuipers bod CSP yn edrych i mewn i hyn. Yr oedd Cyng Dunn yn teimlo bod CSP yn gwaredu ei hun o beidio darparu tai drwy roddi bobl mewn Gwely a Brecwast a ddim yn dod a ateb yn y cyfnod hir – Dywedodd Mr Kuipers fe fyddai yn mynd yn ôl ac yn rhoddi adroddiad or sylwadau I CSP. Mi ddaru Cyng DW Davies nodi tri darn o dîr – y cae yn ymyl yr Ysgol yn Tan-y-Bryn - Tîr ar Ffordd y Garth sydd yn barod a caniatâd cynllunio I 22 o dai – ar draws y Ffordd o Ffordd y Garth mae tîr wedi cael ei brynu ond nid yw'r datblygwr wedi gwneud dim ynglyn a'r tîr. Dywedodd Cyng Davies bod gwerth y tâi cyngor hefyd wedi achosi prynder – Dywedodd Cyng Hughes bod rhaid hen dai gyfarfod rheoliadau tân a bod hyn yn ddrud. Diolchwyd I Mr Kuipers am ei gyflwyniad.

5444 **Cofnodion**

CT Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn gan

01.02.10 y Cyngor. Dywedwyd dylsai y ffigwr o £21873.30 ddarllen Grovenor Construction a dim R. Gaskell

5445 **Busnes Stadurol**

CT Doedd dim l'w drafod.

01.02.10

5446 **Busnes y Maer**

CT Doedd dim adroddiad oherwydd bod y Maer wedi bod yn yr Ysbyty. Dywedodd

01.02.10 Cyng Hughes ei fod wedi ymweld a Cyng Rowlands. Yr oedd yn ddiflas ond yn gwella yn dda, hefyd mae Mr Parsons adref ac mewn hwyl dda.Dymunodd y Cynghorion I gyd wellad buan l'r ddau.

5447 **Materion l'w Codi**

CT

- Mamau Beichiog**(5380)** – llythyr o BILP

01.02.10

- Bwrdd Hysbysiadau wrth y Llyfrgell **(5410)** – Yr oedd Cyng Dunn wedi siarad gyda rhywun ynglyn a hyn a doedd dim gwrthwynebiad. Mi fydd y safle ar maint yn cael ei drafod yn y Panel Pwrpas Cyffredin.
- Gwasanaeth Ambiwlans **(5424)** – lllythyr I ac oddiwrth Edwina Hart MBE Dywedodd y Dirprwy Faer pan ddaru'r clerc gwympo oedd yr Ambiwlans wedi cyrraedd mewn deg munud – Dywedodd Cyng Dunn bod CTM yn hapus gyda staff rheng flaen – Dywedodd Cyng Williams bod hi yn amhosib I fynd o Machynlleth I'r ardal wledig mewn 8 munud a beth oedd angen oedd rhagor o gerbydau Ambiwlans
- Cynllun Troedffordd Ffordd yr Efail **(5431)** llythyr oddiwrth CSP
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru **(5426)** Cynllun gweithredu oddiwrth Mr Richard Lee
- Gwaith Jack Crabtree – Dywedodd Cyng Dunn bod y lluniau yn fawr iawn ond yr oedd wedi nodi lle iddynt. Mae yn aros am waith gael ei wneud a mi fyddai wedyn yn medru ei gosod.

5448 **Adroddiad y Panel Pwrpas Cyffredin**

CT Mae cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi cael ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

01.02.10

- Dywedodd Cyng Williams bod fainc wrth y Clwb Golff angen ei atgyweirio.
- Mae Cyng Foster yn aros am wybodaeth a prisiau I atgyweirio llychosau bws,
- Gofynnodd Cyng Davies fedr llythyr gael ei yrru I Adrian Jervis yn gofyn am bin grut gael ei osod wrth y funedfa I Cartref Dyfi oherwydd yr oedd yn beryglus I ymwelwyr a'r preswylwyr - **Cytunwyd**

5449 **Adroddiad y Panel Iechyd**

CT Mae cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi cael ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn.

01.02.10

- Gofynnodd Cyng Williams I lythyr gael ei yrru I BILP yn gofyn am ateb I gwestiwn 3 yn Adroddiad y Panel Iechyd. **Cytunwyd**

5450 **Adroddiad Panel Cloc y Dref**

CT Rhoddwyd Adroddiad Panel Cloc y Dref l'r Cynghorion.

01.02.10 Dywedodd Cyng Jenkins bod bobl wedi bod yn gofyn a fyddai'r Cloc wedi ei oleuo. Dywedodd Cyng Jenkins petai CTM eisiau llifolau fe fyddai rhaid gofyn am gais cynllunio. Cymerwyd bleidlais a **Cytunwyd** ddylsai'r Cloc gael ei oleuo.

- Gofynnodd Cyng Dunn fyddai'r gwalch ar ben y cloc yn medru aros,

esboniodd Cyng Jenkins bod rhaid symud y gwalch bob cwpwl o ddyrnodau oherwydd bod yr adar yn dod I arfer a fo a mi fyddai hyn yn amhosib unwaith fyddai'r sgaffaldiau yn cael ei tynnu I lawr.

5451 **Adroddiad Panel y Plas**

CT Mae adroddiad Panel y Plas wedi cael ei ddosbarthu ac wedi cael ei dderbyn.

01.02.10

- Dywedodd Cyng Dunn bod y toiledau y tu allan wedi ei dinistrio eto, meant wedi cael ei gwneud yn ddiogel ac wedi ei cloi – Awgrymodd Cyng Dunn ddefnyddio itemau o'r hen Neuadd I gymeryd lle y rhai oedd wedi torri. **Cytunwyd** bod hyn yn syniad da a mi fyddai Cyng Dunn yn trefni hyn. Dywedodd Cyng Dunn ei fod yn cael prysiau am gatiau dur I roddi ar draws y drws.
- Gofynnodd Cyng Baldwin fyddai'n bosib defnyddio'r ffynhonnell eto – Dywedodd Cyng Williams byddai llawer o waith o gynnal a chadw a mi fyddai iechyd a diogelwch yn broblem – Dywedodd Cyng Dunn fod y ffynhonnell yn gweithio ac yr oedd yn edrych am gronfa I gynnal a'I chadw hi..
- Gofynnodd Cyng Jenkins I'r ysgrifennyddes i baratoi adroddiad ariannol llawn I'r Plas -**Cytunwyd**

.

5452 **Adroddiad Cyng Sir J.M. Williams**

CT Mae cofnodion y Cyfarfod diwethaf wedi cael ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn.

01.02.10

- Dywedodd Cyng Williams bod diweithdra yn cynyddu yn Machynlleth.

5453 **Ceisiadau Cynllunio**

CT

01.02.10

- P2009 1335 - Ysgubor Wen, Ffordd Tanrallt – newid o dir amaethyddiaeth I breswyl
- P2009 1223 – Leeds House – estyniad y tu ôl a trawsnewidiad y lloriau uchaf - **Cytunwyd**
- P2009 0177 – Owain Pughes cottages – newidiadau a newid iws. **Cytunwyd** -
- Dywedodd Cyng Williams na fyddai cais y Co-Op yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Cynllunio nesaf.

5454 **Datganiad Cyfrifon**

CT Mae datganiad y cyfrifon wedi cael ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

01.02.10

Date		Chq No	Chq Drawn
22/12/2009	Colin Wilde	5201	£ 1,281.61
	Mark Rumbelow	5202	£ 169.68
	R A Gaskell	5203	£ 130.80
	Mel Biffin	5204	£ 362.67
	R A Gaskell	5205	£ 110.54
05/01/2010	R A Gaskell	5206	£ 125.68
	P Evans & £15 Postage costs	5207	£ 327.00
12/01/2010	R A Gaskell	5208	£ 130.80
05/01/2010	Inland Revenue	5209	£ 763.80
19/01/2010	R A Gaskell	5210	£ 110.54
26/01/2010	Colin Wilde	5211	£ 1,283.80
27/01/2010	Mark Rumbelow	5212	£ 297.70
	R A Gaskell	5213	£ 131.00
	Scottish Power - Clock	5214	£ 58.11
	Cilla Conner - Translation	5215	£ 74.92

	Computersurgeon	5216	£ 90.00
	Cllr Glenda Jenkins - Exps	5217	£ 33.98
	TOTAL		**£5,482.63**

5455 CT 01.02.10 **Gohebiaethau**

- Partneriaeth Cymuned 1af – digwyddiad hapddalwyr –– dymuniad I Gyng gael hyfforddiant – doedd dim diddordeb
- CSP– Addasiad arfaethedig pellach l'r cynllun datblygu unedol
- Torïaid Sir Drefaldwyn – Drafft rhaglen amlinelliad strategol – cau ysgolion:.
- E.bost oddiwrth CSP – Fedrai Machynlleth ddod yn ddinas diemwnt jwbilî – - cytunwyd bod angen rhagor o wybodaeth ynglyn a unrhyw newidiadau ariannol neu cyfrifoldeb ychwanegol cyn mynd yn bellach.
- Cais am gyfraniad oddiwrth y tîm ieuanc a'r tîm canol Peldroed saith bob ochr – dywedwyd bod cyfryniadau wedi cael ei cytuno am y flwyddyn hon..
- Cais am gyfraniad oddiwrth Norma McCarten I helpu ddarparu athrawon proffesiynol I ddosbarth celfyddyd yn Y Plas – dywedwyd bod cyfriniadau wedi cael ei cytuno am y flwyddyn hon.

5456 CT 01.02.10 **Rhifennau**

- Un llais Cymru
- Cylchgrawn Partneriaeth adfywio Powys

5457 CT 01.02.10 **Unrhyw Fusnes Arall**

- Parcio yn lôn Llynlloedd. Adroddodd Cyng Dunn ei fod wedi cyfarfod gyda Mr Fenwick a'l fab. Dywedodd Cyng Dunn ddylsai CTM ymgyrchu I roddi mewn lle rhyw fath o gyfyngiad ar y darn cul yn ymyl Ffordd Heol Maengwyn – Dywedodd Cyng Hubbard bod Mr Fenwick yn ychwanegu y problemmau yn yr haf drwy adael bobl ddefnyddio ei gae I barcio. Dywedodd Cyng Lewis na dim ond 0.01% o'r traffig sydd yn defnyddio'r tîr ac yn bendant dim loriau – Dywedodd Cyng Williams bod Adrian Jervis o CSP wedi dweud bod dim hawl ganddynt oherwydd bod neb yn cymeryd cyfrifoldeb am y Ffordd – cytunwyd I yrru e.bost iddo I ofyn am eglurhad ac I awgrymu pa gyfyngiadau y gallai ei defnyddio.
- Tipio – Dywedodd Cyng Hughes ei fod wedi derbyn cwyn bod rhywun yn clirio ei gardd ac yn tipio'r gwastraff ar ochr y Ffordd – Cytunwyd I yrru llythyr I Adrian Jervis..

5458 CT 01. 02.10 **Yn Gyfrinachol**

Rhoddwyd gais na fyddai'r adroddiadau na'r cofnodion yn cael ei rhoddi l'r wasg tan noson y Cyfarfod – Cymerodd drafodaeth wresog le a cytunodd y Cynghorwyr drafod hyn yn bellach yn y Cyfarfod nesaf pan fyddai'r Clerc yn ôl